Cofnodion cyfarfod 12 Gorffennaf 2022 a gynhaliwyd yn rhithiol am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Iwan Huws	Daniel Huws	
Llŷr Evans	Nel Huws	
Dafydd Huws	Emyr Gareth	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
1.1	Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Iwan Huws, derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Cynog Prys. Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd.	**CLERC**
1.2	Roedd yr ymgyrch yng Ngŵyl y Felin i gael aelodau newydd ar gyfer y Cyngor Cymuned yn llwyddiannus, cafwyd pedwar ymgeisydd ar gyfer pedair sêt. Roedd y pedwar ymgeisydd yn gymwys. Penderfynwyd cyfethol y pedair sef: Elenid Glyn, Eleri wyn Thomas, Karin Koehler a Meleri Jones. Byddant yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod ym mis Medi	**CLERC**
1.3	Gweithdai Ardal Ni 2035 - penderfynwyd byddai'r Cynghorydd Iwan Huws a'r Cynghorydd Nel Huws yn cynrychioli'r Cyngor ar y gweithdai. Y Clerc i adael i'r Swyddog priodol wybod.	**CLERC**
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
3.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
3.1	Cyflwynwyd y gwariant ar gyfer mis Mehefin ynghyd a'r adroddiad ariannol. Derbyniwyd yr adroddiad ariannol.	
4.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI**	
4.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Mis Mehefin 2022 fel rhai cywir.	**CLERC**
4.2	Cae Chwarae Lan Y Môr - mae'r gwaith wetpour wedi ei gwblhau, bydd y gwair yn cael ei osod wythnos nesaf a bydd rhaid i'r aelodau drefnu ei ddyfrio am y bythefnos wedi'r gosod. Mae angen gosod yr eitemau coll pan fyddant wedi eu derbyn. Mae'r Cynghorydd Emyr Gareth wedi cael cadarnhad na fydd gosod yr eitemau coll gan y Cyngor Cymuned ddim yn gwneud y gwaith yn annilys. Mae angen talu'r swm sydd yn weddill i Let's Play. Oherwydd bod diffygion wedi bod yn gweithredu'r prosiect, bydd y Clerc yn rhoi'r wybodaeth mewn dogfen; hefyd bwriedir dysgu oddi wrth y mater.	**CLERC**
5.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
5.1	Rhif Cais : C22/0594/20/DT Lleoliad : Tŷ Newydd Tai Penrallt, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4QJ Bwriad : Estyniad ar gyfer ystafell ymolchi **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
6.0	**CYLLID, CYFLOGAETH, PHOLISÏAU A GWEFAN**	
6.1	Gwaith ar y wefan yn parhau.	
7.0	**ASEDAU**	
7.1	Penderfynwyd bod pris y Contractwr i lanhau tri safle bws yn dderbyniol a phenderfynwyd symud ymlaen a'r gwaith.	**DH**
7.2	Roedd cynnig wedi ei dderbyn yng Ngŵyl y Felin i'r Cyngor Cymuned gyflwyno WiFi yn y ciosg ar Lan y Môr. Trafodwyd	**IH**

	y mater a phenderfynu bydd y Cynghorydd Iwan Huws yn gwneud ymholiadau ag arbenigwyr sut i fynd ati i wneud hyn.	
7.3	Penderfynwyd rhoi hawl i Bwyd Bendigedig i baentio'r Ciosg ar Lan y Môr, unrhyw liw ond llwyd. Roedd y Cyngor Cymuned hefyd yn derbyn y syniad o ddefnyddio'r ciosg er mwyn rhannu planhigion i'r gymuned.	**CLERC**
8.0	**LLWYBRAU CYHOEDDUS, LON LAS A PHRIFFYRDD**	
8.1	Cafwyd adroddiad bod tyfiant o ardal Dwr Cymru ar Lwybr o Hen Gei Llechi wedi gorfod cael ei dorri ar ddiwrnod ras 10K Gwyl y Felin oherwydd ei fod yn rhwystro defnyddwyr y Llwybr. Y Clerc i anfon at Adran Cefn Glad Cyngor Gwynedd I anfon at Dwr Cymru er mwyn iddynt dorri y tyfiant.	**CLERC**
9.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
9.1	Cafwyd y wybodaeth isod gan y Cynghorydd Dan Williams: 1) Llawr - Contractwr yn disgwyl gosod finyl newydd wythnos yn cychwyn 18/07 neu 25/072) 2) Goleuadau - Trydanwr i fod yn y neuadd yfory i orffen y gwaith ar y goleuadau ac i edrych ar y sensor yn toilet Anabl. 3) Tapiau - Plymwr yn gyrru manylion i fi i gael prynu'r tapiau. Wedyn am roi pris am eu gosod a thrwsio flush yn y toiled merched a pheipen yn urinal toilet dynion. 4) Pillar - wedi siarad hefo contractwr am y gwaith - dyddiad i'w drefnu 5) Torri gwair o gwmpas y neuadd – wedi gwneud cais i'r contractor i gwblhau y gwaith.	
9.2	Smart Meter i'w osod yn y cloc ar yr 20fed. Y Cynghorydd Dan Williams ar gael i fod ar y safle gyda'r peiriannydd.	
10.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Dim adroddiad pellach.	
11.0	Bwyd Bendigedig wedi gwneud cais gogyfer defnyddio tir o amgylch y neuadd. Y Clerc i wneud cais i'r grŵp drafod ymhellach y syniad.	**CLERC**
12.0	Cylch achub bywyd wedi ei osod ar adeilad y toiledau.	
13.0	Cafwyd sawl syniad oddi wrth y cyhoedd ar gyfer y Cyngor Cymuned. Dywedwyd bod llechen yn cyfeirio at Brwydr Moel y Don wedi diflannu ers sawl blwyddyn. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd am hawl i osod llechen. Hefyd roedd posib cael rhoi'r wybodaeth ar lechen ar y wal newydd ar Lan y Môr	**CLERC**
14.0	Roedd cynnig wedi ei dderbyn i gyflwyno mainc/bwrdd picnic er cof am aelod o'r gymuned. Nid yw'r Cyngor Cymuned yn gallu gwneud hyn ond gall helpu mewn dod o hyd i wybodaeth ynglŷn â lleoliad gogyfer rhywbeth fel mainc.	**CLERC**
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:30	
Llofnod: Cr Iwan Huws.		**Dyddiad: 20/9/2022**